# Canllawiau ar…

# *Turn2Us*

## Beth yw *Turn2Us?*

Gwefan rhad ac am ddim yw ***Turn2Us*** a ddyluniwyd i helpu pobl i ddod o hyd i ffynonellau addas o gymorth ariannol, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau personol .

Gall **unigolion** chwilio am fudd-daliadau lles, grantiau a ffynonellau eraill o gymorth ariannol y gallent fod yn gymwys i'w hawlio. Mae gwasanaethau ar-lein ychwanegol ar gael i gynghorwyr, **gweithwyr cymorth**, neu swyddogion lles sy'n cyfarfod yn gyson â phobl sydd ag anghenion ariannol.
Mae *Turn2Us* yn rhan o elusen **Elizabeth Finn Care**.


Mae *Turn2Us* yn ymdrin â thri maes allweddol:

**Chwilio am fudd-daliadau**
Mae *Turn2Us* yn cynnig gwasanaeth **gwirio budd-daliadau** sy'n galluogi pobl i gofrestru eu manylion a sicrhau eu bod yn cael yr holl fudd-daliadau lles y maent yn gymwys i'w hawlio.

**Chwilio am grantiau**
Mae'r adran **chwilio am grantiau** yn cynnwys manylion am dros 3,500 o gronfeydd elusennol (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) a allai ddarparu cymorth ariannol a gwasanaethau eraill i ddefnyddwyr.

**Gwybodaeth ac adnoddau**
Mae'r adran **gwybodaeth ac adnoddau** yn cynnig cyngor ar wneud ceisiadau am fudd-daliadau lles a grantiau, a chyngor am reoli arian. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r wefan, yn ogystal ag adnodd A-Z ar gyfer 'deall y jargon', sy'n cynnwys termau a ddefnyddir yn rheolaidd gan y Llywodraeth a gan sefydliadau yn y byd gwasanaethau ariannol.

Mae gan pob faes allweddol dab ar frig pob tudalen:




## Sut i ddod o hyd i wefan *Turn2Us*

Dechreuwch ar hafan yr adran adnoddau electronig ar y fewnrwyd:
**http://gsc/presidingoffic/mrs/Electronic_resources/index.htm**

Dilynwch y linc '**cronfeydd data'** a dewiswch *Turn2Us*.

Gellir cael mynediad uniongyrchol at wefan *Turn2Us* drwy'r linc a ganlyn:
**http://www.turn2us.org.uk/**

Nid oes angen enw defnyddiwr na chyfrinair arnoch.

Mae nifer cyfyngedig o dudalennau ar gael yn Gymraeg ar wefan *Turn2Us*. Cliciwch ar y linc '**Cymraeg'** sy'n ymddangos yng nghornel dde uchaf unrhyw dudalen ar y wefan i gael rhagor o wybodaeth:



# Chwilio am fudd-daliadau

Prif nodwedd y tab hwn yw'r gwasanaeth **gwirio budd-daliadau**. Mae'r offeryn hwn nid yn unig yn nodi'r budd-daliadau y gallai unigolyn fod yn gymwys i'w hawlio, ond hefyd faint o arian y gallai'r unigolyn hawlio, yn seiliedig ar ei sefyllfa bersonol.

Ar ôl clicio ar y linc i lansio'r gwasanaeth **gwirio budd-daliadau**, caiff ymgeiswyr eu tywys drwy gyfres o gwestiynau am eu hunain, eu sefyllfa ac unrhyw fudd-daliadau y maent eisoes yn eu hawlio. Yna, caiff y canlyniadau eu rhestru, ynghyd â lincs i ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth.

Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth gwirio budd-daliadau a'r gwaith papur a allai fod yn angenrheidiol i'r broses honno , fel papurau cyflog, cyfriflenni banc a biliau.

# Chwilio am grantiau

Mae'r dudalen hon yn cynnig  dwy ffordd o chwilio am gyllid grant a ddarperir gan sefydliadau elusennol.


## Chwilio am grantiau

Os ydych yn hyderus y gallwch lenwi ffurflen yn gywir, dewiswch yr opsiwn ar gyfer lansio'r gwasanaeth **chwilio am grant**.

**Launch grants search**

Nodwch eich dewis ar gyfer pob categori gan roi tic yn y blwch priodol.

Mae cyfarwyddiadau ar gael yn y blychau sydd ag ochrau oren ac sydd wedi'u lleoli wrth ymyl pob adran:





## Chwilio gyda chymorth


Fel arall, mae'r gwasanaeth **chwilio gyda chymorth** yn cynnig canllawiau i ddod o hyd i gronfeydd elusennol a allai helpu unigolyn, gan ystyried ei anghenion.

**Launch assisted search**

Ar ôl clicio ar y linc i lansio'r gwasanaeth **chwilio gyda chymorth**, caiff ymgeiswyr eu tywys drwy gyfres o gwestiynau am eu hunain, eu sefyllfa a pham y mae angen yr arian arnynt:



Unwaith y caiff yr holl gamau eu cwblhau, caiff y canlyniadau ar gyfer y ddwy ffordd o chwilio eu rhestru, yn unol â maint y grantiau:


Royal Air Force Benevolent Fund
Past and present members of the Royal Air Force or associated forces and their immediate dependants.
Back to top
Show more
Make an enquiry

Civil Service Benevolent Fund
Serving, former and retired staff of the Civil Service and associated organisations, and their dependants, who are in need. It does not help employees of the NHS or local/county councils
Back to top
Show more
Make an enquiry

Elizabeth Finn Care
People who are British, Irish or those with indefinite leave to remain, who come from a professional or similar background or connection, and their dependants.
Back to top
Show more
Make an enquiry

Cliciwch ar y linc **'show more'** i weld gwybodaeth fanwl am unrhyw gynllun, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd a'r manylion cyswllt ar gyfer gwneud cais.

Cliciwch ar y linc '**make an enquiry'** i fewngofnodi neu greu cyfrif unigol *Turn2Us,* sef cyfrif a ellid ei ddefnyddio i wneud ymholiadau a cheisiadau ar-lein.

## Fy nghyfrif *Turn2Us*

Gwahoddir defnyddwyr i greu **cyfrif cyfrinachol personol ar wefan *Turn2Us*.** Unwaith y caiff y cyfrif ei greu, gellir ei ddefnyddio i wneud ymholiadau a cheisiadau ar y wefan. Mae dileu'r angen i ychwanegu manylion personol i bob cais yn golygu bod y broses yn haws ac yn gynt.

I greu cyfrif, dewiswch y tab '**My *Turn2Us'*** ar y dudalen hafan, neu cliciwch ar y linc '**register'** sy'n ymddangos yng nghornel dde uchaf unrhyw dudalen ar wefan *Turn2Us*:




Gellir dod o hyd i **ragor o wybodaeth** am gofrestru a mewngofnodi drwy glicio ar y tab '**information & resources'** sy'n ymddangos ar y dudalen '**how to guides'**.

## Gweithwyr cymorth a chanolwyr eraill

### Cyfrifon ar gyfer canolwyr

Mae *Turn2Us* yn cynnig gwasanaethau ar-lein ychwanegol i gynghorwyr, gweithwyr cymorth a swyddogion lles sy'n cyfarfod yn rheolaidd â phobl sydd ag anghenion ariannol.

Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n cofrestru am gyfrif *Turn2Us* enwebu rhywun (uwch-reolwr, fel arfer) i fod yn weinyddwr. Mae gan yr unigolyn hwn yr hawl i greu cyfrifon *My Turn2Us* ar gyfer ei gyd-weithwyr o fewn y sefydliad, er mwyn iddynt allu ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau ar ran yr unigolion y maent yn gweithio â hwy.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am sut i greu cyfrif ar gyfer canolwr yn yr adran '***features for intermediaries'*,** ar ôl clicio ar y tab '**information & resources'** sy'n ymddangos ar y dudalen '**how to guides'**.

### Gwasanaeth uwch ar gyfer gwirio budd-daliadau

Mae gan ganolwyr yr hawl i gael mynediad at **wasanaeth uwch ar gyfer gwirio budd-daliadau**, sy'n eu galluogi i:

- wneud cyfrifiadau cymhleth ynghylch y goblygiadau posibl i incwm unigolyn pe byddai'r unigolyn hwnnw yn hawlio budd-daliadau penodol;
- arbed cyfrifiadau a wnaed ar gyfer cwsmer, gan ddefnyddio'r gwasanaeth gwirio budd-daliadau cyhoeddus a'r gwasanaeth uwch ar gyfer gwirio budd-daliadau.

## Adnoddau e-ddysgu

Mae **modiwlau e-ddysgu** sy'n ymdrin â gwefan *Turn2Us* yn ei chyfanrwydd ar gael i ganolwyr hefyd, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth gywiraf a'r canlyniadau chwilio cywiraf.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan *Turn2Us* ar gyfer canolwyr, cliciwch ar y linc '**I'm helping someone find out about benefits and grants'** sy'n ymddangos ar dudalen hafan gwefan *Turn2Us*.

# Gwybodaeth ac adnoddau

Mae'r opsiynau cymorth sydd ar gael o dan y tab hwn wedi eu rhestru ar y bar offer llwyd




- budd-daliadau
- grantiau
- rheoli arian
- deall y jargon
- canllawiau 'how to'
- gwasanaeth chwilio am ymgynghorwr


Bydd clicio ar bob un o'r opsiynau hyn yn eich tywys i dudalen wybodaeth fanwl.

Er enghraifft, mae'r dudalen **rheoli arian** yn cynnwys gwybodaeth am dlodi tanwydd a chyngor ar gyfer teuluoedd carcharorion a theuluoedd y lluoedd arfog, ynghyd â gwybodaeth am fenthyg arian, rheoli dyled a threth.

Mae'r gwasanaeth **deall y jargon** yn cynnwys gwybodaeth am eiriau, ymadroddion a thalfyriadau a ddefnyddir yn rheolaidd gan gyrff llywodraethol neu gan sefydliadau yn y byd gwasanaethau ariannol, fel y gyfradd ganrannol flynyddol (APR), treth ar werth (VAT), "Prawf Cartref Arferol" ac "atwrneiaeth". I ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, cliciwch ar y llythyren briodol.

Mae'r canllawiau '**how to'** yn cynnig cyngor manwl ynghylch sut i ddefnyddio gwefan *Turn2Us*, ac mae'r gwasanaeth **chwilio am ymgynghorwr** yn eich caniatáu i chwilio am gymorth yn eich ardal. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer Cyngor ar Bopeth, y Ganolfan Byd Gwaith ac adrannau tai lleol, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer dod o hyd i gyngor cyfreithiol a chymorth ymarferol.

Yn ogystal, gellir dod o hyd i wybodaeth drwy ddefnyddio'r cwymplenni sy'n ymddangos yn y blychau priodol ar gyfer **budd-daliadau, grantiau** a **rheoli arian**:




# Cymorth

Mae llinell gymorth *Turn2Us* , sy'n rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol, ar agor rhwng 8am a 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener:
**0808 802 2000**

Mae'r tab '**ask a question'** yn cynnig rhagor o gymorth priodol, ynghyd â ffurflen gyswllt e-bost ar gyfer ymholiadau hirach.

Gellir dod o hyd i lincs defnyddiol, newyddion, arolygon cyfredol a chylchlythyr *Turn2Us* ar dudalen hafan gwefan *Turn2Us*.